CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU

Adroddiad Monitro Contract

Enw/cyfeiriad y darparwr: **Gilwern House**

Dyddiad/amser yr ymweliad: **5 a 15 Awst 2019**

Swyddog(ion) ymweld: **Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau**

Yn bresennol: **Deborah Gordon, Rheolwr Cofrestredig**

1 Cefndir

1.1 Adeilad mawr ar wahân ym Mhontllan-fraith yw Gilwern House, sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gofal preswyl ar gyfer 13 o bobl. .

1.1.2 Roedd yr ymweliad monitro llawn diwethaf â rhybudd, ac fe'i cynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018.

1.1.3 Mae'r swyddog ymweld yn defnyddio amrywiaeth o systemau monitro er mwyn casglu a dehongli data fel rhan o'r broses monitro, gan gynnwys arsylwadau â staff, defnyddwyr gwasanaethau a pherthnasau, lle bo modd.

1.1.4 Roedd yr ymweliad monitro hwn â rhybudd ac roedd yn cynnwys archwilio dogfennau, siarad â staff, preswylwyr a pherthnasau, a threulio rhan fawr o'r diwrnod yn y cartref.

1.1.5 Cyflwynwyd system teledu cylch cyfyng i'r cartref yn 2017 yn dilyn cyfnod ymgynghori â'r preswylwyr/perthnasau a'r staff. Mae'r cartref wedi sicrhau bod hysbysiadau'n cael eu harddangos yn glir ac y rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2 Argymhellion blaenorol

2.1 <u>Camau unioni</u>

2.1.2 Cynlluniau Personol i gael eu llofnodi gan y Rheolwr. Canfyddiadau: WEDI'I GYFLAWNI

2.2 Cynlluniau Personol i gael eu llofnodi gan y preswylydd neu gynrychiolydd. Canfyddiadau: WEDI'I GYFLAWNI

2.2.1 Camau datblygu

2.2.2 Ni chofnodwyd unrhyw gamau.

3 Canfyddiadau

3.1 Unigolyn Cyfrifol

3.1.1 Nid oedd copi o'r adroddiad chwarterol ar gael ar adeg yr ymweliad; fodd bynnag, gwelodd y swyddog ymweld daflenni casglu data oedd yn cynnwys meysydd fel *Edrychiad y staff, Yr Amgylchedd Cyffredinol, Ymchwilio i gwympiadau* a'r *Gofrestr Damweiniau,* Materion diogelu, Cwynion, lefelau staffio, anghenion preswylwyr unigol ac ati.

3.1.2 Darparwyd copi o'r Datganiad o Ddiben; fodd bynnag, nodwyd nad oedd y ddogfen yn nodi dyddiad datblygu na dyddiad adolygu. Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn nodi bod y Datganiad o Ddiben i gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

3.1.3 Dywedwyd wrth y swyddog ymweld fod Rheolwr y Cartref yn bresennol os yw'r Unigolyn Cyfrifol yn absennol. Pe bai Rheolwr y Cartref yn absennol, byddai'r Unigolyn Cyfrifol yn cynorthwyo â'r gwaith o reoli a rhedeg y cartref.

3.1.4 Wrth edrych ar y wybodaeth ynghylch Polisïau a Gweithdrefnau, nodwyd nad oedd y dogfennau wedi'u hadolygu ers 2018, a thrafodwyd hyn. Bwriadwyd gwneud adolygiadau ym mis Mawrth 2019; fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Rheolwyr, erbyn hyn bydd polisïau'n cael eu hadolygu yn 2020.

3.2 Dogfennau

3.2.1 At ddibenion yr ymweliad monitro archwiliwyd ffeiliau dau breswylydd. Gwelwyd mai dim ond un o'r rhain oedd ag asesiad cyn-derbyn, sy'n canfod a yw'r cartref yn gallu diwallu anghenion unigolyn ai peidio.

3.2.2 Roedd y Cynlluniau Personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddarparu tystiolaeth bod y preswylwyr neu eu perthnasau wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynllun.

3.2.3 Gwelwyd Asesiadau Risg priodol, a oedd yn cynnwys meysydd fel cyfathrebu, seicolegol, hyfywedd croen, golwg, symudedd, cwympiadau, canllawiau gwely, meddyginiaeth.

3.2.4 Roedd y wybodaeth a nodwyd yn y dogfennau yn darparu tystiolaeth glir bod gan y staff ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am yr unigolion sy'n byw yn y cartref. Cafwyd tystiolaeth o hyn hefyd wrth siarad ag aelod staff a thrwy wylio'r staff yn rhyngweithio â'r preswylwyr.

3.2.5 Wrth edrych ar y ffeiliau, nodwyd bod un wedi cael ei hadolygu bob 3 mis, a bod y llall wedi cael ei hadolygu bob mis oherwydd dirywiad yn iechyd yr unigolyn. Caiff unrhyw newid yn yr anghenion ei nodi'n briodol a rhoddir gwybod i'r staff amdano yn ystod amser trosglwyddo gofal a thrwy'r llyfr cyfathrebu, sydd ar gael i bob aelod o staff Gilwern House.

3.2.6 Dangosodd y ffeiliau a welwyd fod y cartref yn atgyfeirio preswylwyr yn briodol at asiantaethau allanol fel meddyg teulu, gwasanaethau cymdeithasol, nyrsys ardal, tîm gofal lliniarol, eiriolwr annibynnol o ran galluedd meddwl ac ati.

3.2.7 Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys gwybodaeth y dylid cysylltu ag aelodau o'r teulu pe bai unrhyw beth yn digwydd, a gwelwyd hefyd orchmynion 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' hefyd.

3.2.8 Roedd un ffeil yn cynnwys Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng, oedd wedi'i lunio ym mis Rhagfyr 2018, ac yn yr ail ffeil roedd cynllun o'r fath wedi'i ddyddio 2015. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth i ddangos bod y cynllun wedi cael ei adolygu bob mis.

3.2.9 Gwelwyd trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLs) ar gyfer y rhai y mae arnynt eu hangen. Gwelwyd bod y wybodaeth wedi cael ei dilysu gan y Tîm Asesu Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

3.3 <u>Perthnasau a Phreswylwyr</u>

3.3.1 Mae gan y cartref bolisi drws agored ac nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr adegau y caiff perthnasau'r preswylwyr ymweld.

3.3.2 Yn ystod yr ymweliad monitro, ni chafodd y swyddog ymweld gyfle i gyfarfod â pherthynas; fodd bynnag, siaradodd y swyddog ymweld â phreswylydd.

3.3.3 Esboniodd y preswylydd ei bod yn pryderu ar y dechrau ynghylch symud i ddarpariaeth gofal preswyl; fodd bynnag, dywedodd fod y staff 'wastad yn garedig wrtha i'. Hefyd dywedodd fod y bwyd yn hyfryd a'i bod wedi blasu hadog wedi'i gochi a betys, oedd yn neis iawn.

3.3.4 Esboniodd y preswylydd ei bod yn defnyddio peiriant llyfrau llafar a'i bod hefyd yn 'siarad â Google'. Gwelwyd bod gan y preswylydd fan tawel i ddefnyddio'r cyfleusterau, ac ar yr un pryd bod ganddi gyfle i ymgysylltu â'r preswylwyr eraill.

3.3.5 Roedd y preswylydd wedi'i gwisgo'n dda mewn dillad priodol; nid oedd ganddi unrhyw bryderon ynghylch byw yn Gilwern House ac ymddangosai ei bod yn hapus ac yn fodlon.

3.4 <u>Gweithgareddau</u>

3.4.1 Yn ystod y ddau ymweliad, gwelwyd bod y preswylwyr oedd yn eistedd yn y lolfa yn cymryd rhan mewn gemau sgitls neu gemau cof, gyda chymorth y cydgysylltwyr gweithgareddau. Mae ffotograffau'n cael eu harddangos er mwyn i ymwelwyr weld pa weithgareddau mae'r unigolion yn Gilwern House yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r rheiny sy'n cael gofal yn y gwely yn cael ymarfer corff goddefol, ar y cyd â chwarae CDs, DVDs, darllen ac edrych trwy albwm ffotograffau.

3.4.2 Gwelodd y swyddog ymweld ryngweithio cadarnhaol rhwng y preswylwyr a'r staff, gyda digonedd o chwerthin a gwenu.

3.4.3 Roedd yn gadarnhaol nodi bod Gilwern House yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y caiff y preswylwyr eu diddanu. Gall hyn fod ar ffurf sesiynau canu, partïon, celf a

chrefft, chwarae gemau cof, ymweliadau gan artistiaid ac ati. Dywedodd y Rheolwr wrth y swyddog ymweld fod un artist oedd yn ymweld wedi aros hanner awr yn ychwanegol yn ddiweddar, er mwyn perfformio i'r rhai sy'n cael gofal yn eu hystafelloedd.

3.5 Cyfleusterau ac Arsylwadau

3.5.1 Oherwydd bod nifer o'r preswylwyr yn defnyddio cynorthwyon symudedd erbyn hyn, mae'r cartref wedi gwneud newidiadau yn y lolfa a'r ystafell haul. Mae'r rhain yn rhoi mwy o le i'r preswylwyr symud ynddo.

3.5.2 Yn ystod yr haf gall y preswylwyr fwynhau eistedd yn yr ardd fach. Mae gasibo a chelfi gardd priodol yn yr ardd.

3.5.3 Wrth fynd i'r ystafell fwyta, gwelwyd bod y byrddau'n edrych yn groesawgar, gyda chwpanau a soseri tsieni (a chwpanau yfed eraill ar gael yn ôl yr angen) a phlatiau enwau.

3.6 Diogelwch Tân / Iechyd a Diogelwch

3.6.1 Mae cwmni preifat yn ymweld â'r cartref bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system larwm tân a'r goleuadau argyfwng yn gweithio. Cynhaliwyd y prawf diwethaf ym mis Awst 2019 a gwelodd y swyddog ymweld y dystysgrif a ddarparwyd. Gwelwyd hefyd fod y diffoddwyr tân wedi cael eu profi ar un diwrnod.

3.6.2 Gwnaethpwyd dau argymhelliad yn ystod yr asesiad tân yn 2018. Cafodd y rhain eu cwblhau erbyn mis Tachwedd 2018.

3.6.3 Ar adeg yr ymweliad, ar 14 Mai 2019 roedd yr ymarfer tân diwethaf a gofnodwyd. 20 munud oedd hyd yr ymarfer ac roedd 3 aelod o'r staff yn absennol ohono.

3.6.4 Gwelwyd y llyfr damweiniau a nodwyd y bu 3 damwain yn ymwneud â chwympiadau yn ystod mis Gorffennaf. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dueddiadau.

3.6.5 Os oes angen cymorth eiriolwr ar unigolion, mae'r cartref yn gwneud yr atgyfeiriad priodol. Ar adeg yr ymweliad, dywedodd y Rheolwr fod Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddwl ac eiriolwr o 'Can Do' wedi cynorthwyo rhai o'r preswylwyr.

3.6.6 Mae gan Gilwern House nifer o hyrwyddwyr a ffrindiau dementia, ac mae'n parhau i weithio er budd y rhai maent yn eu cynorthwyo sydd â'r salwch. Darparwyd hyfforddiant hefyd i berthnasau sy'n ymweld â'u haelod o'r teulu sydd â dementia.

3.6.7 Pe bai preswylydd yn cymryd meddyginiaeth nad oes arno ei angen o bosibl, byddai staff Gilwern House yn gofyn am adolygiad gan feddyg teulu.

3.7 Rheoli arian preswylydd

3.7.1 Mae trefniadau'n bodoli i gadw arian a phethau gwerthfawr yn ddiogel. Cedwir cofnodion priodol o unrhyw wariannau/derbyniadau, y mae 2 aelod o'r staff yn dystion iddynt. Yn ystod yr ymweliad, gwelodd y swyddog monitro'r dogfennau a'r derbynebau a gedwir gan y cartref.

3.8 Sicrhau ansawdd

3.8.1 Dywedwyd wrth y swyddog ymweld fod y cartref yn dechrau ar y broses o wneud gwaith sicrhau ansawdd ar hyn o bryd. Disgwylir i holiaduron gael eu dosbarthu y mis hwn. Yn anffodus, ar adeg yr ymweliad, roedd y cartref tua mis yn hwyr gyda'i broses Sicrhau Ansawdd. Ers cynnal yr ymweliad monitro, mae'r cartref wedi rhannu ei adroddiad Sicrhau Ansawdd â'r swyddog ymweld.

3.8.2 Roedd yr adroddiad yn un manwl ac yn nodi'r hyn mae'r cartref yn ei wneud yn dda, yr hyn mae angen i'r cartref ei wneud i wella/datblygu ymhellach, pa gamau mae eu hangen i sicrhau gwelliannau/datblygiadau a sut y caiff y rhain eu mesur. Roedd pob maes hefyd yn cynnwys crynodeb.

3.8.3 Er bod gan y cartref broses Cwyno/Canmol, ychydig iawn o gwynion sydd wedi dod i law. Nid yw'r swyddog monitro ymweld wedi cael unrhyw gwynion ynghylch y cartref ac nid yw'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cyfeirio unrhyw gwynion at dîm comisiynu'r Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, dywedodd y Rheolwr fod 3 cwyn wedi dod i law ac wedi cael eu datrys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddwyd ymatebion ysgrifenedig ffurfiol i'r 3 cwyn.

3.8.4 Gwelwyd bod y cyfarfod staff diwethaf wedi'i gynnal ym mis Chwefror 2019. Er bod staff yn llofnodi i dystio cofnodion y cyfarfod, roedd rhai enwau ar goll. Cydnabu Rheolwr y Cartref y bu oedi o ran trefnu mwy o gyfarfodydd a rhoddwyd esboniad.

3.8.5 Cynhaliwyd cyfarfod preswylwyr/perthnasau ar 23 Gorffennaf 2019, pan drafodwyd pynciau amrywiol h.y. y gronfa adloniant, ffair haf, dewisiadau bwydlen yr haf, maethiad/hydradiad, trip cinio, defnydd o glychau galw.

3.8.6 Cyfrifoldeb yr Uwch Ofalydd dydd yw'r broses trosglwyddo gofal rhwng y staff, a thrafodir pob unigolyn er mwyn dweud wrth y staff sy'n dechrau ar ddyletswydd am unrhyw newidiadau pwysig priodol ac ati. Er na chaiff cofnodion y sesiwn drosglwyddo eu cofnodi, mae fformat penodol i'r ffordd y caiff y gofal ei drosglwyddo. Mae hefyd lyfr cyfathrebu ar wahân ar gyfer yr Uwch Ofalyddion ac ati, sy'n cynnwys materion ar wahân i'r cyfathrebu pob dydd gyda'r holl staff.

3.8.7 Nid oes neb sy'n cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cartref ar hyn o bryd. Pan ofynnwyd iddi sut y gweithredir y Cynnig Rhagweithiol, dywedodd y Rheolwr fod ganddi ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg a'i bod yn deall mwy nag y gall ei siarad.

3.9 Hyfforddiant

3.9.1 Cydnabyddir Rheolwr Gilwern House fel Hyrwyddwr Dementia, a'r staff yn Hyrwyddwyr a Ffrindiau Dementia.

3.9.2 Pe bai angen cymorth neu wasanaeth eirioli ar unigolyn, mae'r cartref yn gwneud atgyfeiriad at y sefydliad 'Can Do'. Mae'r staff hefyd yn ymwybodol o sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau eiriolaeth eraill.

3.9.3 Gwelodd y swyddog ymweld y Matrics Hyfforddiant. Nododd fod gan 84.6% o'r staff gofal y cymhwyster disgwyliedig, gyda'r gweddill yn gweithio tuag ato ym mis Gorffennaf 2019.

3.9.4 Er y gwelwyd bod yr hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, nodwyd bod rhai aelodau o'r staff i fod i ddilyn cyrsiau diweddaru.

3.9.5 Darperir hyfforddiant gorfodol a dywedodd Rheolwr y Cartref er bod matrics hyfforddiant ar waith ar hyn o bryd, ei bwriad yw trosglwyddo'r crynodebau gwybodaeth i gofnod hyfforddiant arall h.y. Excel neu becyn wedi'i brynu'n breifat, er mwyn hwyluso'r gwaith o archwilio hyfforddiant i ddefnyddwyr a darparu mwy o wybodaeth i uwch weithwyr ac asiantaethau allanol.

3.9.6 Caiff hyfforddiant ei ddarparu gan Reolwr y Cartref, hwyluswyr a gomisiynir yn breifat ac adran Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent a Chaerffili. Cynhelir yr hyfforddiant hwn mewn ystafell ddosbarth.

3.9.7 Caiff hyfforddiant ei werthuso trwy adborth oddi wrth y staff ac wrth i'r Rheolwr arsylwi ar y staff yn rhoi ar waith y sgiliau a'r wybodaeth a gafwyd o ddilyn cwrs. Caiff bylchau eu hadnabod wrth i Reolwr y Cartref edrych ar y Matrics Hyfforddiant. Dywedodd y Rheolwr ei bod yn cael trafferthion ar hyn o bryd i gyrchu hyfforddiant Rheoli Heintiau, ond ei bod wedi codi hyn gydag adran Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent a Chaerffili.

3.9.8 Gwelwyd y matrics goruchwylio a gwelodd y swyddog ymweld fod rhai o'r sesiynau goruchwylio yn hwyr. Cydnabuwyd hynny gan Reolwr y Cartref.

3.9.10 Yr Uwch Ofalyddion sy'n cynnal y sesiynau goruchwylio ar sail un i un. Rheolwr y Cartref sy'n cyflawni'r holl werthusiadau staff ac roedd y rhain i fod i gychwyn ym mis Awst 2019.

3.10 <u>Cwestiynau'r Staff</u>

3.10.1 Yn ystod yr ymweliad siaradwyd yn helaeth ag un aelod o'r staff. Roedd yn gallu esbonio'r hyn y byddai'n ei wneud pe bai angen cymorth emosiynol ar unigolyn.

3.10.2 Esboniodd yr aelod o'r staff sut y mae'n cyfathrebu ag unigolion sydd ag anawsterau cyfathrebu posibl. Pan ofynnodd y swyddog ymweld ynghylch preswylydd penodol, gallai'r aelod o'r staff roi gwybodaeth fanwl.

3.10.3 Dywedodd yr aelod o'r staff ei bod yn teimlo'n hyblyg yn ei rôl, oherwydd y gallai dreulio amser yn eistedd gyda'r preswylwyr yn siarad neu'n cyflawni gweithgareddau. Dywedodd yr aelod o'r staff wrth y swyddog ymweld ei bod wrth ei bodd â'i rôl. Nid oedd ganddi unrhyw bryderon o ran y preswylwyr sy'n byw yn Gilwern House, nac o ran y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Disgrifiodd Rheolwr y Cartref a'r uwch weithwyr fel rhai sy'n hawdd iawn mynd atynt.

3.10.4 Trafodwyd trefniadau diogelu, a disgrifiodd yr aelod o'r staff sut y byddai'n gweithredu pe bai'n gweld arferion gwael.

3.10.5 Siaradodd y swyddog ymweld hefyd â'r Rheolwr ynghylch y cymorth a gynigir iddi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae cymorth ar gael yn rheolaidd gan fod yr Unigolyn Cyfrifol fel arfer yn ymweld â'r cartref bob dydd. Fodd bynnag, cynhelir ymweliad cynlluniedig mwy ffurfiol bob 3 mis.

4 **Cyffredinol**

4.1 Busnes teuluol yw Gilwern House ac mae iddo deimlad cynnes a chartrefol iawn. Yn ystod yr ymweliad ni chanfuwyd unrhyw aroglau drwg nac unrhyw beryglon.

4.2 Gwelwyd bod y gofalyddion yn rhoi llawer o sylw i'r preswylwyr, a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r holl weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod yr ymweliad. Roedd yr awyrgylch yn un anffurfiol, ac roedd pawb oedd yn bresennol yn galw ei gilydd wrth eu henwau cyntaf.

5 Camau unioni a datblygu

5.1 Unioni

5.1.1 Rhaid i'r Datganiad o Ddiben nodi dyddiad cynhyrchu a chael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn (Rheoliad 7, Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol). **Amserlen:** Cyn pen tri mis **Canlyniad:** Adolygwyd y datganiad gan Reolwr y Cartref ers hyn ac yn awr mae'n cynnwys dyddiad cynhyrchu, dyddiad adolygu ac enw'r awdur h.y. Rheolwr y Cartref.

5.1.2 Os defnyddir canllawiau gwely, rhaid cael tystiolaeth bod ffurflen caniatâd canllawiau gwely wedi cael ei chwblhau a bod Asesiad Risg yn bodoli (Rheoliad 15, Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol). **Amserlen:**

5.1.3 Sesiynau goruchwylio i gael eu cynnal bob 3 mis (Rheoliad 36, Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol). **Amserlen:** Cyn pen chwe mis

5.1.4 Cyfarfodydd staff rheolaidd i gael eu cynnal (o leiaf chwech bob blwyddyn) Rheoliad 38, Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. **Amserlen:** Cyn pen dau fis

5.1.5 Asesiadau cyn-derbyn i gael eu cadw yn ffeiliau unigolion. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Rheoliad 18). **Amserlen:** Yn barhaus ar gyfer derbyniadau newydd i'r cartref.

5.2 Camau datblygu

5.2.1 Cofnodi faint sy'n cael ei yfed a'i fwyta bob dydd, er mwyn sicrhau cofnodi'n gywir a yw'r targed hylifau dyddiol wedi'i gyrraedd ai peidio, ac i gofnodi pa gamau mae eu hangen, os o gwbl, e.e. ymyriad gan feddyg teulu.

5.2.2 Dylai cofnodion cyfarfodydd tîm gofnodi enwau'r cadeirydd, y cofnodydd a'r rhai sy'n bresennol. Mae'n arfer da hefyd gynnwys taflen llofnodi yng nghefn y cofnodion fel tystiolaeth bod yr holl gyflogeion wedi gweld y materion a drafodwyd.

5.2.3 Hanesion oes i gael eu cwblhau mewn modd mor fanwl ag sy'n bosibl, gan gadw cofnodion o unrhyw ymgeisiau i gael y wybodaeth hon oddi wrth ffrindiau a theulu'r unigolyn. Y wybodaeth hon i gael ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau ac i lywio cynlluniau personol perthnasol.

5.2.4 Y daflen Manylion Cyswllt i fod yn gyson â'r wybodaeth yn y Manylion Personol.

6 Casgliadau

6.1 Roedd yr ymweliad monitro yn gadarnhaol, a gwelodd y swyddog ymweld ryngweithio da rhwng y staff a'r preswylwyr.

6..2 Bydd monitro rheolaidd yn parhau yn Gilwern House, a hoffai'r swyddog monitro ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu croeso yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 6 Medi 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael hefyd i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.